Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiadau Ariannol PCDDS 2022/2023

# Datganiad Tryloywder


# Incwm y Brifysgol a'r Grŵp

Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig a daw ei hincwm o amrywiaeth eang o ffynonellau.

Ein ffynhonnell incwm fwyaf yw ffioedd dysgu a delir gan fyfyrwyr, a ategir gyda chyllid a geir gan CCAUC.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynhyrchu incwm masnachol o nifer o ffynonellau gan gynnwys ei llety, cyfleusterau cynadledda a dyfarniadau grant masnachol.

Mae incwm cyfunol y grŵp yn cynnwys cyllid llywodraeth ar gyfer darpariaeth AB drwy ddau goleg AB, cyllid ar gyfer cyflenwi hyfforddiant iaith Gymraeg ac incwm masnachol o rentu eiddo a gweithgynhyrchu uwch




# Gwariant Gweithredu'r Brifysgol a'r Grŵp

Eir i gostau am amrywiol resymau, gan sicrhau bob amser bod y myfyrwyr wrth galon popeth a wnawn.

Fel sy'n gyffredin ledled y sectorau AU, costau staff yw ein gwariant mwyaf.

Mae gwariant nad yw'n gyflogau'n cynnwys pob agwedd ar y Brifysgol, o gynnal yr ystâd, darparu cymorth academaidd a darparu'r gwasanaethau canolog sy'n angenrheidiol i alluogi cyflenwi ein gweithgaredd addysgu.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gorff annibynnol ac ni adlewyrchir costau rhedeg Undeb y Myfyrwyr yng nghyfrifon y Brifysgol. Rhoddodd y Brifysgol grant o £1,000,000 yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo gyda chostau rhedeg Undeb y Myfyrwyr.



# Defnydd o Ffioedd Dysgu'r Brifysgol

Caiff ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig llawn amser eu capio ar £9,000 y flwyddyn ym mhob SAU yng Nghymru.


Mae'r Brifysgol yn defnyddio ei holl ffrydiau incwm i gyflawni ei chenhadaeth graidd a darparu'r seilwaith canolog sydd ei angen i gefnogi'r gwaith cyflenwi hwn.

Yn 2022/2023 cafodd 75% o holl incwm ffioedd y Brifysgol ei ail-fuddsoddi'n uniongyrchol i gefnogi myfyrwyr gyda 15% yn cefnogi ystâd y Brifysgol a 10% yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r seilwaith canolog.

Mae'r Brifysgol yn buddsoddi'r rhan fwya o'i hincwm er mwyn darparu'r amgylchedd addysgu gorau bosibl i'w myfyrwyr gyda 69.74% o'r holl incwm ffioedd dysgu'n cael ei fuddsoddi mewn costau addysgu uniongyrchol a chostau lles myfyrwyr.

**Sut y caiff Ffioedd Dysgu eu Gwario (Costau'r Brifysgol)**

| | Costau Staff £'000 | Costau nad ydynt yn Gyflogau £'000 | Cyfanswm Costau £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau Uniongyrchol Addysgu | 38,794 | 15,578 | **54,372** |
| Costau Cymorth Addysgu | 6,304 | 9,979 | **16,283** |
| Cyfleusterau Staff a Myfyrwyr | 2,311 | 1,913 | **4,224** |
| Lles Myfyrwyr | | 7,910 | **7,910** |
| Costau Eiddo | 4,194 | 10,186 | **14,380** |
| Canolog a Gweinyddu | 12,444 | 7,998 | **20,442** |
| | **64,047** | **53,564** | **117,611** |




# Gwarged Gwaelodol a Defnydd Arian Parod y Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn ceisio cyflawni gwarged gweithredol bob blwyddyn er mwyn darparu'r arian parod sydd ei angen ar gyfer buddsoddi yn nyfodol y Brifysgol.

Mae rhan o'r gwariant hwn yn gwasanaethu ad-daliadau dyled ar ddatblygu campws y Brifysgol sy'n gwasanaethu poblogaeth y myfyrwyr heddiw gyda gwerth uwch yn cael ei roi at welliannau presennol ac yn y dyfodol i'r ystâd a'r cyfleusterau a ddarperir i fyfyrwyr.

Fel elusen, mae'r Brifysgol yn ceisio ail-fuddsoddi'r holl incwm ar ôl talu ei chostau gan ychwanegu at brofiad y myfyriwr yn y tymor canolig.

Yn ystod 2022/2023 gwariwyd 90% o incwm y brifysgol ar weithgaredd yn ystod y flwyddyn, gwariwyd 5% ar wasanaethu dyled, gwariwyd 8% ar wariant cyfalaf a defnyddiwyd yr hyn sy'n cyfateb i 13% o gronfeydd wrth gefn y grŵp a gronnwyd mewn blynyddoedd blaenorol.



# Gwarged Gwaelodol a Defnydd Arian Parod y Grŵp

Defnyddiodd perfformiad arian parod y Grŵp £15miliwn o arian parod o gronfeydd wrth gefn y Brifysgol.

Yn ystod 2022/2023 gwariwyd 98% o incwm y grŵp ar weithgaredd yn ystod y flwyddyn, gwariwyd 3% ar wasanaethu dyled, gwariwyd 7% ar wariant cyfalaf a defnyddiwyd yr hyn sy'n cyfateb i 8% o gronfeydd wrth gefn y grŵp a gronnwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol.

